

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Ionawr 2020
yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm

Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Ymddiswyddiad – ethol Cadeirydd

Derbyn cofnodion 14eg o Dachwedd 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 27ain o Dachwedd

Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni
Ceisiadau Nawdd /Taliadau wnaethpwyd yn dilyn e-bost at y Cynghorwyr

Ceisiadau Cynllunio

C19/1078/25/DT Codi estyniad unllawr i Collwyn 1, Ffordd Cynan Penrhosgarnedd
C19/1165/25/RA Diwygio amod 2 o Cais Gwreiddiol Ysgol y Faenol C19/0087/25/R3
C19/1095/25/DT Gweithdy a modurdy newydd Fferm Ty'n Ffridd LL57 4UF
C19/1114/25/LL Codi Sied Amaethyddol Fferm Ty'n Ffridd LL57 4UF
C19/1110/25/LL Estyniad Deulawr yn Ysbyty Gwynedd LL57 2PW
C19/1189/25/DA Diwygiad ansylweddol ar gyfer ail-leoli llwybr beicio a thirlunio
ychwanegol Goetre Uchaf bangor LL57 2NT

Canolfan Penrhosgarnedd

Ysgol y Faenol

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Ad-dalu TAW yn ol i HMRC
 - Maesydd Chwarae Cyngor Gwynedd
 - Deddf Amgylchedd Cymru – Environment Wales Act
 - Cwblhau adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn
 - Cae Redrow
 - Prisiau
 - Cyngor Gwynedd
 - D W Lewis
- Adroddiad
 - Hysbysfwrdd Ysb Gwynedd
 - Biniâu Halen

Materion y Cynghorwyr

Cyng J Griffiths	Cwn ar Lon Las Ogwen / Problemau ail-gylchu
Cyng L A James	Rheoliadau Cynllunio
Cyng T A Williams	Llinellau Gwyn cyffordd Treborth a'r gefnffordd Problemau casglu sbwriel
Cyng H Griffiths	Problemau ail-gylchu Lon Ty'n Ffridd
	Llwybr hen lon pentir o'r Lodge i gyfeiriad Rhydygroes

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 14^{eg} o Dachwedd 2019 Yng Nganolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00pm

Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, D Jones-Morris, J. Griffiths, E. Jones, J Pierce, D W Jones, B Jones, M Baines, T Anwyl-Williams a L. A. James
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, M Lynch, a H Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen bwrpasol os oes angen.

Derbyn cofnodion 9 fed o Hydref 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris ag eilwyd gan y Cyng B Jones

Materion yn codi o'r cofnodion

Wal Coed y Maes Dim datblygiad pellach yn dilyn cadarnhad y byddai Cyngor Gwynedd yn llythyru y perchenog

Llinellau Melyn Ffordd Penrhos Aelod Lleol mewn trafodaethau gyda Swyddogion Gwynedd a Uwch Swyddogion Ysbyty Gwynedd ag am drefnu cyfarfod.

Cyng D JM yn hapus i gefnogi a mynychu'r cyfarfod

Datblygiad Ysgol y Faenol

Yn sgil yr oedi 'roedd Uwch Reolwr Adeiladau'r Cyngor Sir wedi mynychu yr IBC dechra Tachwedd i amlinnellu y rhesymau dros yr oedi

Cofnodion isod

Is-bwyllgor Cyllid - Diwedd Hydref ohirwyd i 6ed o Dachwedd

Croesawyd Geraint Owen -Uwch Reolwr Adeiladau Cyngor Gwynedd - i'r cyfarfod i drafod yr oedi ar y cynlluniau ymestyn Ysgol Y Faenol .

Mae y gwaith yn mynd rhagddo ond oherwydd 'man newidiadau' yn y rhan 'ysgol' o'r prosiect rhagdybir na fyddwn yn symud i mewn tan Haf 2021 yn hytrach na Ionawr 2021.

Nid oes unrhyw newid yn y rhan Gymunedol ond mae posib er gwaetha'r ffaith fod y cyfraniad o £150K bellach wedi mynd y byddai cais am gyfraniad am yr ail 'wal rhannu' yn y neuadd, os oedd y Cyngor yn awyddus hefo'i cais i gael 2wal rhannu

Credai mae swm oddeutu £10K fyddai hynny

Diolchwyd i Mr Owen am ei gyflwyniad a gofyn iddo anfon cais ysgifennedig atom ynglyn a'r cyfraniad £10K

Rhanwyd cofnodion IBC 6ed o Dachwedd 'Roedd y fantolen ariannol yn dangos £55,689.55 yn y cyfrif gan fod mwy o ad-daliadau TAW wedi eu talu i mewn a'r banc yn datgan fod rhybudd y byddai credyd arall o HMRC yn cael ei dalu 15/11/19

Mae'r sefyllfa erbyn hyn yn hollol afresymol er gwaetha'r ffaith fod y Clerc mewn cyswllt wythnosol bellach hefo HMRC.

Cytunwyd trosglwyddo'r holl ad-daliadau o'n cyfrif cyfredol i'n Cyfrif Cynnilo Busnes fel ein bod yn gwybod yn union faint o'n Cyllideb sydd weddill. Cadarnhawyd mae £39,886.19c yw'r cyfanswm hwnnw

Rhanwyd taenlen gwariant 'tebygol' cyn diwedd y flwyddyn (Mawrth 2020)

Amcangyfrifwyd y byddai'r gwariant hwnnw yn £27,597.00 ag y byddai yn dangos syrffed o £12,289.19 oedd rhyw £1,000.00 yn is na'r balans dechrau 2019-20

Nid oedd Halen 2019-20 na'r biniau halen oedd wedi eu archebu wedi ei cynnwys na pris cysgodfan Nant y Mount tae y Cyngor yn cytuno i brynu un ar gyfer y safle hwnnw o gyllideb eleni.

Nawdd

Dim datblygiad am fantolen Marie Currie na Llais Ogwen.

Daeth cais gan Dawns i Bawb IBC yn argymhell peidio cefnogi y cais eleni

Cais wedi dod o Grwp Canu Glasinfryn am gyfraniad tuag at brynu piano

Cytuno mewn egwyddor i gefnogi'r cais ond drwy y Ganolfan gan nad oes gan y grwp sydd newydd gael ei sefydlu swyddogion i fedru trefnu mantolen arannol eu hunain.

Argymhell bod yn holl daliadau yn cael eu talu

Adolygwyd Polisi Diogelu Data a) y Cyhoedd
b) Aelodau a Staff

yn ogystal a Polisi Cyfrynga Cymdeithasol

Argymhell i'r Cyngor Llawn eu ail-fabwysiadu

Asesu Risg Byddai Cyng L A James yn cyflwyno tabl yn y Cyngor Llawn

Yn unol a'r uchod ail fabwysiadwyd ac arwyddwyd y polisiau dan sylw

Cyflwynnodd Cyng L A James **Gofrestr Risgiau** yn amlinellu'r risg – maint cychwynol y risg – mesuriadau i Reoli y risg – a'r sgor gweddillol

Diolchwyd iddi am ei gwaith

Trafodwyd y cais i gyfrannu £10K tuag at sicrhau cael yr ail wal i rannu'r Neuadd yn y Ganolfan newydd Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng D W Jones yn eilio ein bod yn cefnogi'r cais.

Cytunwyd yn unfrydol

Mynegwyd pryder gan un aelod na fyddai neuadd yr ysgol bellach yn cael ei ymestyn i alluogi'r disgyblion i fedru cyd-addoli.

Gofynnodd i'r Cyngor ystyried cyfrannu mwy tuag at y cynllun i alluogi hynny ddigwydd.

Bu cryn drafod, cyn i'r Cadeirydd ddod a'r drafodaeth i ben; a gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau pellach naill ai gyda'n cyfreithwyr neu Unllais

Ceisiadau Cynllunio Cais C19/0666/25/LL Coed Bryn Pwll Waen Wen o osod . Gosod Cynhwysyddion Storio ar dir amaethyddol – Ymateb erbyn 21/10/19 **Gwrthwynebu**

Canolfan Penrhosgarnedd

Diweddariad gweinyddiaeth Canolfan Penrhosgarnedd

Y Trysorydd bellach yn cymeryd y llogiadau. Un o'r gofalfwyr yn gorffen ddiwedd Tach a'r llall yn ymgymeryd a'r gwaith yn ei gyfanrwydd

Cynnal a Chadw - Ar argymhelliad Uwch Reolwr Adeiladau Cyngor Gwynedd dim ond gwneud yr hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch y defnyddwyr a'n staff

Cyfarfod wedi ei drefnu at 5ed o Rhagfyr

Diweddariad Datblygiad Ysgol y Faenol

Cofnodwyd eisioes

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Cofrestr buddianau i'w chwblhau – 2 heb gwblhau y ffurflen Clerc wedi gwneud drafft o'r gofrestr
 - Arwyddion Treborth Llywodraeth Cymru i drefnu ond newidiadau i fod dechrau 2020
 - Meysydd Chwarae Llythyr / epost o Cyngor Gwynedd yn gofyn os yw Cyngorau Cymuned yn fodlon ymgymeryd a chyfrifoldeb am feysydd chwarae mae nhw yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd

2 sydd wedi ei enwi i Cyngor Pentir sef 1 yn Glasinfryn a 1 yn Ffordd Cynan Penrhos

Nid yw'n glir iawn pryd na be yn union mae Gwynedd yn olygu hefo cyfrifoldeb
Cytunwyd i'r Clerc gysylltu i holi am eglurhad

- Deddf Amgylched Cymru – Environment Wales Act
 - Adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn
- Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd

Cyng D Jones-Morris a Cyng L A James am wneud ymholiadau gyda Ysb Gwynedd

Materion y Cyngorwyr – mwyafrif ar gyfer prosiectau i'w prisio ar gyfer cyllideb 2020-21

Cyng C E Hughes	Blodau Gwylt Trefniadau mewn lle i gyfarfod swyddog o Cyngor Gwynedd ar gyfer prisio a hefyd wedi cael cyswllt a cwmni lawnology
Cyng L A James	Sgipiau Cymunedol Clerc i holi os oes angen caniatad a prisio
Cyng E Jones	Cysgodfan Bws Nant y Mount Clerc i holi os oes angen caniatad a prisio
Cyng M Baines	Coed Bryn Pwll Trigolion wedi cysylltu yn datgan pryder ynglyn a'r cais yma a cais i wneud mynedfa newydd i'r lleoliad
Cyng J Griffiths	Parcio Felin Hen Mynegu pryder fod cymaint yn parcio ceir y ddwy ochr i'r ffordd wrth y bont mae Lon Las Ogwen yn croesi yr A 4244. Mae'n golygu fod rhaid i gerddwyr gerdded ar y ffordd fawr Clerc i gysylltu a Cyng Gwynedd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30